CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 11

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Darlun o Ysgolion

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

**Prif adroddiad 5**

Ysgolion cyd-destun 5

Ysgolion strategaeth 7

Ysgolion cyllid 12

Ysgolion perfformiad 19

Ysgolion galw a chapasiti 25

Ysgolion materion allweddol 29


# Ynglŷn â’r adroddiad hwn

Mae’r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021. Mae ein prif adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 yn crynhoi rhai o’r tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn nodi ein safbwynt ar rai o’r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi gwybodaeth allweddol am ysgolion yng Nghymru gan gynnwys y cyd-destun gweithredu strategol a’r cyllid. Mae’n archwilio gallu yn y sector, perfformiad a’n barn ar y materion neu’r heriau allweddol. Nid yw’n ystyried gofal plant nac addysg ôl-orfodol ar wahân i chweched dosbarth mewn ysgolion. Rydym yn archwilio addysg uwch ac addysg bellach yn ein taflen grynodeb o’r un enw. Ni fwriedir i’r adroddiad hwn fod yn gynhwysfawr. Mae’n nodi’r hyn a ystyriwn yn rhai o’r materion allweddol i’r sector, gan gydnabod y bydd gan gyrff adolygu a sylwebyddion eraill eu safbwynt eu hunain ar y materion allweddol.

Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar gyfuniad o’r gwaith yr ydym ni wedi’i gyhoeddi yn ogystal ag ymchwil gan sefydliadau eraill.

**Arddangosyn 1: Allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus**



# Prif adroddiad

## Ysgolion – cyd-destun

### Cyflwyno dysgu mewn cyfnod heriol

1 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i wasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu darparu. Mae ysgolion wedi wynebu pwysau enfawr gyda'r heriau o symud gwasanaethau ar-lein ar yr un pryd â darparu cymorth wyneb yn wyneb i blant gweithwyr allweddol. Yna bu'n rhaid i ysgolion addasu eu hamgylcheddau ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae pob un ohonom yn Archwilio Cymru yn talu teyrnged i ymroddiad ac ymdrechion anhygoel gweision cyhoeddus yn ystod y cyfnod anodd hwn.

2 Wrth i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae effeithiau uniongyrchol COVID yn dal i gael eu teimlo mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd gwaith i ddeall effeithiau anuniongyrchol COVID wedi dechrau, ond roedd yn rhy gynnar i fesur maint a graddau'r effeithiau hyn neu i amcangyfrif sut y gallant effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau addysg ysgolion yn y dyfodol.

## Strwythurau a chyfrifoldebau

### Addysg orfodol

3 Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol o'r tymor ar ôl i blentyn droi'n bump oed. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf yn dechrau yn nhymor yr Hydref yn ystod y flwyddyn academaidd pan fyddan nhw'n troi'n bump. Gall person ifanc adael yr ysgol ddiwedd mis Mehefin, ar yr amod eu bod yn 16 oed erbyn diwedd gwyliau'r haf. Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'r system addysg yng Nghymru fel 'model tair haen' (**Arddangosyn 2**).

4 Mae gan brif gynghorau[1] nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol pwysig ar gyfer ysgolion:

- **Cyllid** – mae cynghorau'n penderfynu ar gyllideb ysgolion yn flynyddol, yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010;
- **Cynllunio** – mae'n rhaid i gynghorau sicrhau bod digon o addysg gynradd ac uwchradd ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol; a
- **Safonau** – mae'n rhaid i gynghorau hyrwyddo safonau uchel a chefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n dirprwyo gweithgarwch gwella ysgolion i'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru.

**Arddangosyn 2: model tair haen system addysg Cymru**

**1**

**Llywodraeth Cymru**

- Cynllunio a llunio polisïau – drwy gydweithio seiliedig ar dystiolaeth.
- Rheoli modelau atebolrwydd o fewn y broses ddemocrataidd.
- Ymgysylltu â phob haen a chefnogi'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gwella'r system

**2**

**Pedwar consortiwm rhanbarthol, cynghorau, awdurdodau esgobaethol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, byrddau arholi ac addysg uwch**

- Defnyddio eu gwybodaeth am eu hysgolion ac ymchwil gwybodaeth broffesiynol eang i hwyluso a chefnogi'r broses o rannu arfer gorau a chydweithio i wella deilliannau dysgwyr, o fewn system hunanwella i ysgolion.

**3**

**Ysgolion**

- Cydweithio i roi amrywiaeth o brofiadau i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol er mwyn gwella eu dysgu a'u lles.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol, Cynllun gweithredu 2017-21, Medi 2017 (gyda diwygiadau Archwilio Cymru)

1 Awdurdodau llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gynghorau sy'n cyflawni dyletswyddau statudol yn eu hardal. Nid yw'r term yn cynnwys cynghorau tref na chymuned. Mae pob cyfeiriad at gynghorau yn y daflen ffeithiau hon yn cyfeirio at brif gynghorau.

### Addysg blynyddoedd cynnar

5 Mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl i ddeg awr o addysg blynyddoedd cynnar o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r rhan fwyaf o leoedd a ariennir (90%) mewn meithrinfeydd sy'n gysylltiedig ag ysgolion a gynhelir[2]. Mae eraill gyda darparwyr nas cynhelir (preifat, gwirfoddol neu annibynnol). Ar hyn o bryd, y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer plant tair i saith oed.

6 Yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, mae rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn darparu gofal plant rhan-amser i blant dwy i dair oed a chymorth arall i deuluoedd â phlant o dan bedair oed.

## Ysgolion – strategaeth

### Diwygio addysg i blant 3-19 oed

7 Yng ngoleuni canlyniadau gwael Cymru ym mhrofion PISA rhyngwladol 2009 (**paragraffau 36 i 38**), cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar raglen ddiwygio ar raddfa gyfan gan gynnwys adolygiadau o arholiadau, hyfforddiant athrawon a'r cwricwlwm. Yn 2014, nododd ei gweledigaeth ar gyfer system addysg well[3]. Yn 2017, dywedodd Llywodraeth Cymru sut y byddai'n gweithredu'r diwygiadau yn ei chynllun gweithredu Addysg yng Nghymru. Canolbwyntiodd y Cynllun ar ddatblygu:

- ansawdd, arweinyddiaeth a chydweithio yn y proffesiwn addysgu;
- ysgolion cynhwysol cryf, gan ddiwygio'r system anghenion dysgu ychwanegol,
- codi safonau – lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a diwygio'r cwricwlwm; a
- threfniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn.

2 Sibieta, L and Jerrim, J., A comparison of school institutions and policies across the UK, Sefydliad Polisi Addysg, Ebrill 2021. Goruchwylir 'ysgolion a gynhelir' gan y cyngor ac mae'n rhaid iddynt ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol a thâl ac amodau athrawon cenedlaethol.

3 Llywodraeth Cymru, Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru, Hydref 2014

8 Roedd y diwygiadau'n gofyn am ddeddfwriaeth newydd:

- **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** – gosododd hon y sylfeini ar gyfer newidiadau yn y ffordd y mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hasesu a'u cefnogi. Yn bwysig iawn, mae'n ymestyn cymorth o 0 i 25 oed, gan ymestyn i addysg ôl-orfodol am y tro cyntaf. Bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol o fis Medi 2021.
- **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**– a alluogodd y Cwricwlwm i Gymru. Ymestynnodd y cwricwlwm i gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth newydd Cymru sawl is-ddeddfwriaeth sydd eu hangen i gefnogi gweithrediad Cwricwlwm i Gymru.

### Y blynyddoedd cynnar

9 Mae'r blynyddoedd cynnar wedi bod yn faes ffocws i Lywodraeth Cymru ers dros ddegawd. Cyhoeddodd gynllun deng mlynedd – Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair – i wella'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn 2013[4]. Ymrwymodd y cynllun i ddatblygu fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar i wella canlyniadau i blant 0 i 7 oed[5].

10 Yn 2017, parhaodd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru[6] – Ffyniant i Bawb – â'r weledigaeth i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a nododd y blynyddoedd cynnar yn un o bum maes blaenoriaeth trawsbynciol. Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i sefydlu dull integredig ar gyfer plentyndod cynnar ac addysg gyda'r nod o greu un system addysg a gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac o ansawdd uchel i blant o dan bump oed a fydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd[7].

4 Llywodraeth Cymru, Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Medi 2013

5 Llywodraeth Cymru, Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar, Ebrill 2015

6 Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol, Medi 2017

7 Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llythyr at Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, 6 Tachwedd 2019

## Rhaglen ysgolion ac addysg yr 21ain ganrif

11 Ochr yn ochr â’r rhaglen ddiwygio hon, mae gan Lywodraeth Cymru raglen gyfalaf addysg hirdymor: ysgolion ac addysg yr 21ain ganrif. Dechreuodd y rhaglen yn 2014 ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu cynlluniau ar gyfer lleoedd ysgol gyda’r nod o gael yr ysgolion iawn yn y lleoedd iawn ar gyfer y dyfodol.

12 Er bod nodau’r rhaglen yn ehangach na gwella ystad yr ysgol, nod Llywodraeth Cymru yw na fydd unrhyw ysgolion ‘cyflwr difrifol’ erbyn 2024-25 ac y bydd nifer yr ysgolion cyflwr ‘gwael’ wedi gostwng 25%. Mae cyllid ar gael hefyd ar gyfer cyfleusterau blynyddoedd cynnar mewn ysgolion a cholegau addysg bellach drwy’r rhaglen.

13 Rhannwyd y cyllid ar gyfer cam cyntaf y rhaglen (Band A) yn gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a chynghorau. Canfu ein hadroddiad yn 2017 ar y rhaglen[8] fod Llywodraeth Cymru yn rheoli’n dda ar y cyfan wrth gyflawni’r Band A gwerth £3.6 biliwn. Gwnaeth ein hadroddiad rai argymhellion gan gynnwys mwy o safoni ar draws y prosiectau i sicrhau gwerth am arian. Ers i ni adrodd, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau Band B, sy’n cynnwys ffrwd o brosiectau a ariennir drwy’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol o gyllid preifat.

## Addysg cyfrwng Cymraeg

14 Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y disgyblion sy’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hon yn elfen bwysig o’i strategaeth Cymraeg 2050 sy’n cynnwys targed i 30% o ddysgwyr fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031. Cynyddodd nifer y plant saith oed a aseswyd drwy’r Gymraeg fel iaith gyntaf o 22% yn 2016 i 22.8% yn 2021, gan fethu targed interim y Llywodraeth o 24% erbyn 2021.

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, Mai 2017

## COVID-19 a thu hwnt

### Cau ysgolion a dysgu o bell

15 Rhwng 20 Mawrth a 27 Mehefin 2020, roedd ysgolion ar gau i bawb heblaw plant gweithwyr hanfodol a disgyblion agored i niwed. Roedd pryderon ynghylch lles y rhai mwyaf agored i niwed gan fod presenoldeb yn isel[9]. Agorodd ysgolion am gyfnod byr cyn gwyliau'r haf gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n rhan-amser er eu lles nhw ac i baratoi ar gyfer tymor yr hydref. Darparodd Llywodraeth Cymru offer digidol a gweithiodd gydag ysgolion i ddarparu dysgu o bell. Rhoddodd ganllawiau[10] ar ei disgwyliadau a'i blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ym mis Gorffennaf 2020.

16 Erbyn mis Mawrth 2021, roedd Llywodraeth Cymru wedi ariannu bron i 11,000 o lwybryddion symudol ar gyfer disgyblion heb fynediad i fand eang a 10,000 o drwyddedau meddalwedd i ailddyrannu gliniaduron presennol (heb gynnwys y rhai a fenthycwyd drwy ysgolion). Canfu adroddiad cynharach gan y Sefydliad Polisi Addysg a Sefydliad Nuffield[11] fod Llywodraeth Cymru wedi arwain gwledydd y DU i ddarparu offer digidol, ond bod darpariaeth ysgolion o ddysgu o bell yn amrywio. Roedd rhai plant – yn enwedig disgyblion iau a disgyblion a oedd wedi ymddieithrio'n fwy o'r ysgol cyn y pandemig – yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â dysgu o bell. Roedd rhai heb gymorth teuluol, band eang na lle i astudio'n effeithiol.

17 Roedd ysgolion yn wynebu mwy o aflonyddwch yn nhymor yr hydref o gau'n genedlaethol[12] ac achosion lleol. Dim ond 78% o ddisgyblion oedd yn mynychu'r ysgol ddechrau mis Rhagfyr 2020. O 4 Ionawr 2021, roedd disgyblion – ar wahân i blant gweithwyr hanfodol a disgyblion agored i niwed – yn dysgu o bell. Darparodd Llywodraeth Cymru fwy o offer TG ac ehangodd y grŵp o ddisgyblion 'agored i niwed' a allai fod yn bresennol i gynnwys disgyblion heb offer TG, band eang neu le i weithio a'r rhai oedd yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn dysgu o bell.

9 Llywodraeth Cymru, Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig, Mehefin 2020

10 Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar Ddysgu mewn Ysgolion a Lleoliadau: Coronafeirws, Gorffennaf 2020

11 Sefydliad Polisi Addysg a Sefydliad Nuffield, Education policy responses across the UK to the pandemic, Hydref 2020

12 Llywodraeth Cymru, Amserlen Cau Ysgolion Yn ystod Pandemig COVID-19 (Coronafeirws), Mai 2021

18 Dechreuodd y disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym mis Mawrth 2021, gan ddechrau gyda'r ieuengaf a'r rhai mewn blynyddoedd arholiadau. Dechreuodd disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (3 i 7) ddychwelyd o 22 Chwefror gyda'r holl ddisgyblion cynradd a'r rhai ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 yn ôl o 15 Mawrth. Dychwelodd disgyblion eraill i'r ysgol ar ddechrau tymor yr haf. Fodd bynnag, oherwydd heintiau COVID-19 a'r gofynion i hunan-ynysu roedd llawer wedi colli rhan o'r tymor: roedd 84% o ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod yr wythnos rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf.

## Arholiadau

19 Mae disgyblion mewn blynyddoedd arholiadau wedi wynebu aflonyddwch arbennig. Ni chynhaliwyd arholiadau TGAU na Safon Uwch yn ôl y bwriad ym mis Mai/Mehefin 2020. Er gwaethaf newidiadau i'r system asesu, cafwyd anawsterau gyda'r broses o ddyfarnu graddau arholiadau ym mis Awst 2020 pan gafodd rhai disgyblion raddau is na'r disgwyl. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ymyrryd, dyfarnwyd y gorau i'r disgyblion naill ai o'r radd a aseswyd gan y ganolfan[13] neu'r radd safonedig a gyfrifwyd gan CBAC.

20 Awgrymodd adolygiad annibynnol[14] ym mis hydref 2020 y dylai Cymwysterau Cymru[15] a CBAC[16] fod wedi rhagweld y problemau hyn gyda chanlyniadau arholiadau. Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai disgyblion yn cael graddau a aseswyd gan y ganolfan wedi'u seilio ar asesiadau mewnol, arholiadau mewnol a rhai arholiadau allanol. Yn sgil yr argyfyngau iechyd yn gwaethygu, cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 y byddai disgyblion yn cael graddau a aseswyd gan y ganolfan wedi'u seilio ar ystod o dystiolaeth ond heb arholiadau allanol[17]. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd CBAC newidiadau i arholiadau TAG, UG a Safon Uwch ar gyfer haf 2022 yn dilyn ymgynghoriad.

---

13 Roedd graddau a aseswyd gan y ganolfan wedi'u seilio ar asesiad proffesiynol yr athrawon o'r hyn y byddai'r disgybl wedi'i gyflawni pe baent yn gallu sefyll arholiad. Gallai athrawon ddefnyddio unrhyw feini prawf maen nhw'n eu dymuno wrth amcangyfrif graddau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) waith cwrs wedi'i gwblhau, ffug arholiadau neu gyflawniad academaidd blaenorol.

14 Louise Casella (Cadeirydd), Adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer 2021: Adroddiad interim Hydref 2020, Hydref 2020

15 Sefydlwyd Cymwysterau Cymru yn 2013 fel y corff annibynnol, statudol sy'n rheoleiddio cymwysterau ar wahân i raddau yng Nghymru.

16 Ers 2015, CBAC fu'r unig ddarparwr cymwysterau ar gyfer ysgolion a cholegau a ariennir gan y wladwriaeth ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

17 Llywodraeth Cymru, Canllawiau Arholiadau ac asesu: 2020 i 2021, Ionawr 2021


# Ysgolion – cyllid

## Tueddiadau o ran cyllid ysgolion

### Mae gwariant ar ysgolion wedi gostwng rhwng 2010-11 a 2019-20 ac mae'n amrywio ledled Cymru

21 Mae gwariant ar ysgolion wedi gostwng dros y degawd diwethaf yng Nghymru, er ei fod o lefel uchel hanesyddol yn 2010-11 (**Arddangosyn 3**). Yn 2019-20, roedd cyfanswm y gwariant ar ysgolion 3.4% yn is mewn termau real nag yn 2010-11.

**Arddangosyn 3: cyfanswm gwariant addysg 2010-11 i 2019-20, termau real (prisiau 2019-20)**




Ffynhonnell: Set ddata all-dro Llywodraeth Leol StatsCymru (dadansoddiad Archwilio Cymru)

22 At ei gilydd, roedd y cyllidebau ar gyfer ysgolion a bennwyd gan gynghorau ledled Cymru ar gyfer 2020-21 6% yn uwch mewn termau real na'r flwyddyn flaenorol. Roeddent yn cynnwys cymorth dal i fyny COVID i ddisgyblion drwy'r rhaglen Recriwtio, Adfer, Codi Safonau[18] yn ogystal â chyllid i alluogi ysgolion i baratoi diwygiadau arfaethedig: paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru cyn ei roi ar waith am y tro cyntaf ym mis Medi 2022 ac ar gyfer y diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu cyflwyno'n raddol o fis Medi 2021.

23 Mae gwariant cynghorau fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae ffactorau fel a oes chweched dosbarth mewn ysgolion, ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn ogystal â'r natur wledig a lefel yr amddifadedd yn yr ardal yn effeithio ar gymariaethau. Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gyllid ysgolion[19]. Addaswyd yr adolygiad ar gyfer y gwahanol ffactorau ac amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gwariant fesul dysgwr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2018-19 tua £300 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Ngheredigion, Conwy, Caerffili a Blaenau Gwent. Yr oedd tua £200 neu fwy yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghasnewydd, Bro Morgannwg a Sir y Fflint. Galwodd yr adroddiad am fwy o dryloywder yng ngwariant ysgolion cynghorau.

### Mae Cymru'n gwario tua'r un peth â Lloegr fesul disgybl ond yn llai na'r Alban


24 Yn 2009-10, roedd gwariant fesul disgybl yng Nghymru yn is na gwledydd eraill y DU. Mae ymchwil[20] wedi canfod bod gwariant fesul disgybl, yn Lloegr, wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i doriadau mewn gwariant a chynnydd yn nifer y disgyblion. Yn 2019-20, gwariodd Cymru a Lloegr bron yr un peth fesul disgybl. I'r gwrthwyneb, cynyddodd gwariant yn yr Alban 5% mewn termau real ac roedd yn gyson uwch nag yn y gwledydd eraill (**Arddangosyn 4**).

18 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen Recriwtio, Adfer, Codi Safonau ym mis Gorffennaf 2020, gyda'r nod o leihau effaith y pandemig ar ddisgyblion. I ddechrau, canolbwyntiodd ar y rhai ym mlynyddoedd 11, 12 a 13 gydag arholiadau, blwyddyn 7 yn dechrau ysgol uwchradd a disgyblion eraill sy'n agored i niwed.

19 Sibieta, L., Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru Meithrin tystiolaeth, tegwch, tryloywder a disgwyliadau clir, Tachwedd 2020

20 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Gwariant ysgolion fesul disgybl yng Nghymru a Lloegr, Gorffennaf 2018

**Arddangosyn 4: gwariant fesul disgybl yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, 2009-10 i 2019-20 (termau real, prisiau 2018-19)**




Ffynhonnell: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2020 Annual report on education spending in England, Tachwedd 2021

25 Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gyllid ysgolion a nododd ddau faes lle mae'r cyllid yng Nghymru yn sylweddol is na Lloegr:

- **Cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd** – mae'r ysgolion cynradd ac uwchradd mwyaf difreintiedig yn Lloegr yn cael 25 i 30% o gyllid ychwanegol o'i gymharu â rhyw 15% yn ychwanegol yng Nghymru.
- **Cyllid chweched dosbarth** – roedd cyllid Llywodraeth Cymru fesul dysgwr mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion tua £4,200 yn 2018-19 o'i gymharu â £5,000 yn Lloegr. Mae'r adolygiad yn cwestiynu a all y lefel hon o gyllid yng Nghymru gefnogi ysgolion i ddarparu cwricwlwm ôl-16 cytbwys yn y dyfodol.

**Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo tua £370 miliwn i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar addysg**

26 Yn 2020-21, dyrannodd Llywodraeth Cymru dros £220 miliwn i addysg (gan gynnwys buddsoddi mewn cymorth digidol ac iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau). Mae hefyd yn bwriadu darparu £150 miliwn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol 2021-22 i gefnogi ysgolion, athrawon a disgyblion. Mae'r prif ymrwymiadau'n cynnwys:

- £35.6 miliwn i gefnogi rhaglenni mentora a chymorth arall i ddisgyblion drwy'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
- £33 miliwn i gefnogi dysgwyr 16 i 19 oed sy›n dilyn cyrsiau astudio newydd mewn ysgolion, colegau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach;
- £23.2 miliwn ar gyfer darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau;
- £15 miliwn ar gyfer technoleg addysgol mewn ysgolion drwy›r rhaglen Hwb EdTech;
- £13 miliwn i gefnogi darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a lleoliadau nas cynhelir; a
- £9 miliwn i gefnogi gwasanaethau lles mewn ysgolion.

27 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer gofal plant gan gynnwys:

- £16 miliwn ar gyfer gofal plant i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy›n agored i niwed mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig o fis Ebrill i fis Medi 2020; a
- £5 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae, gyda £2 miliwn i gyflawni addasiadau ar raddfa fach i alluogi gweithredu'n ddiogel rhag COVID a £3 miliwn wedi'i ddyrannu i gynyddu cyfleoedd chwarae.

28 Awgrymodd ymchwil ym mis Mehefin 2021 fod y cyllid dal i fyny a gynlluniwyd bryd hynny yn cyfateb i £400 y disgybl yn 2019/20 a 2021/22[21]. Roedd hyn o'i gymharu â £310 yn Lloegr (plant 3 i 18 oed); £230 yn yr Alban (ysgolion yn unig); a £230 yng Ngogledd Iwerddon (3 i 19 oed). Mae'n anodd cymharu gwariant yn rhyngwladol, ond mae gwledydd eraill wedi cyhoeddi cynlluniau uchelgeisiol: mae'r Iseldiroedd wedi cyhoeddi cyllid dal i fyny sy'n cyfateb i £2,100 y disgybl ac mae UDA yn darparu cyllid gwerth £1,800 y disgybl.

**Mae cyllid prydau ysgol am ddim wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd 2021**

29 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i gynghorau ddarparu prydau ysgol am ddim i'r disgyblion hynny sy'n gymwys pan gaewyd ysgolion yn gyntaf. Darparwyd hyn gan y rhan fwyaf o gynghorau ar ffurf talebau i deuluoedd[22]. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymrwymo i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf 2020. Wedi hynny, ymrwymodd i ddarparu prydau ysgol am ddim tan ddiwedd gwyliau'r Pasg 2022.

30 Cynyddodd y gost wrth i fwy o deuluoedd fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig: roedd 105,000 o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2021, cynnydd o fwy nag 20% o fis Ionawr 2020. Darparodd Llywodraeth Cymru hyd at £60.5 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim gan gynnwys £34 miliwn ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol hyd at y Pasg 2021.

21 Sefydliad Polisi Addysg, Comparing catch-up spending within and outside the UK, Mehefin 2021. Mae'r cyllid yn Lloegr yn ymestyn i 2022/23 yn hytrach na dim ond 2021/22 ar gyfer y gwledydd datganoledig. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r cylch cyllidebu gyda chenhedloedd datganoledig yn gwybod eu cyllidebau yn yr hydref.

22 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau, Tachwedd 2020

**Rheoli'r pwysau cost sy'n wynebu'r system addysg**

31 Roedd cyllid ysgolion dan straen cyn y pandemig. At ei gilydd, roedd gan ysgolion gronfeydd wrth gefn o £31 miliwn ar 31 Mawrth 2020, sy'n cyfateb i £69 y disgybl. Roedd cronfeydd wrth gefn wedi gostwng 33% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd naill ai gronfeydd wrth gefn negyddol (43%) neu gronfeydd wrth gefn yn llai na 5% o'u cyllideb flynyddol (46%). Mae'n debygol y bydd cronfeydd wrth gefn ysgolion yn dangos cynnydd yn 2020-21 o ganlyniad i gario cyllid COVID ymlaen nad oeddent yn gallu ei wario o fewn y flwyddyn ariannol. Disgwyliwn y bydd hyn dros dro, gan adlewyrchu amgylchiadau eithriadol y pandemig.

32 Mae ein gwaith ni a gwaith Adolygiad Cyllido Ysgolion 2020 wedi nodi pwysau cost sy'n wynebu'r system addysg yn y tymor byr, canolig a hir. Yn ogystal â chwestiynau ynglŷn â digonolrwydd cyllid ysgolion sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ac ar gyfer dosbarthiadau chwech (paragraff 25), mae ysgolion yn wynebu cynnydd yng nghyflogau a phensiynau athrawon. Mae cyflog yn cynrychioli mwy na hanner gwariant ysgolion. Dywedodd Llywodraeth flaenorol Cymru na fyddai cyflogau'n disgyn yn is na chyflogau athrawon yn Lloegr. Amcangyfrifodd yr Adolygiad o Gyllid Ysgolion y byddai costau ysgolion fesul dysgwr yn cynyddu rhwng 6.4% ac 8.4% pe bai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull tebyg i gynnig llywodraeth y DU yn 2019 i gynyddu cyflogau cychwynnol athrawon yn Lloegr i £30,000 erbyn 2022-23. Mae llywodraeth y DU wedi ailddatgan ei hymrwymiad i'r nod hwn ond dywedodd y bydd ei gyflawni yn cymryd mwy o amser nag a gyhoeddwyd yn flaenorol.

33 Mae meysydd penodol eraill o bwysau cost posibl ar ysgolion. Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (paragraff 30) yn golygu y bydd angen mwy o arian, mae'n debyg, ar gyfer grantiau a chynlluniau sy'n cefnogi'r disgyblion hynny o aelwydydd tlotach. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd diwygio gwasanaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn niwtral o ran cost. Fodd bynnag, ar sail profiad yn Lloegr, credwn fod o leiaf perygl o gostau ychwanegol[23].

23 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Support for pupils with special educational needs and disabilities in England, Medi 2019

34 Yn gyffredinol, mae cost addysg yng Nghymru yn fwy oherwydd nifer yr ysgolion cynradd bach (llai na 100 o ddisgyblion) ac ysgolion uwchradd bach (llai na 700). Mae gan Gymru lawer o ysgolion bach yn rhannol oherwydd natur wledig ac yn rhannol oherwydd ei bod yn gweithredu system hollt gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Saesneg. Ym mis Tachwedd 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru grant o £2.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer tymor y Senedd i gefnogi ysgolion bach a gwledig. Lansiodd hefyd ei Gynllun Addysg Wledig[24] a chryfhaodd y Cod Trefniadaeth Ysgolion[25] fel bod cynghorau ac eraill yn ystyried pob dewis amgen ymarferol cyn penderfynu cau ysgol wledig.

35 Mae tensiwn rhwng dyletswydd cynghorau i ddarparu ystad ysgol effeithlon a chefnogaeth cymunedau i'w hysgolion lleol. Mae'n ymddangos y bydd yr heriau'n parhau wrth i amcanestyniadau awgrymu y bydd nifer y disgyblion mewn ardaloedd gwledig yn gostwng yn y tymor canolig a hir ynghyd â'r niferoedd mewn rhai ardaloedd trefol.

24 Llywodraeth Cymru, Cynllun Addysg Wledig, Hydref 2018


25 Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ymysg pethau eraill, mae'r Cod yn nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylid eu hystyried gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a gan y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

# Ysgolion – perfformiad

### Perfformiad yn y profion PISA rhyngwladol

36 Mae'n anodd barnu perfformiad y sector addysg yn gyffredinol, yn rhannol oherwydd newidiadau mewn mesurau perfformiad dros amser ac oherwydd gwahaniaethau cynyddol mewn addysg ledled y DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd sylw i berfformiad disgyblion Cymru ym mhrofion PISA rhyngwladol yr OECD sy'n asesu sgiliau a pherfformiad disgyblion 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth (**Arddangosyn 5**)[26].

**Arddangosyn 5: Canlyniadau PISA i Gymru 2006, 2009, 2012, 2015 a 2018**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

26 Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn astudiaeth o gyflawniad addysgol a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Nod PISA yw rhoi llinell sylfaen i lywodraethau ar gyfer polisi a pherfformiad addysg, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a dysgu oddi wrth ei gilydd.

37 Roedd canlyniadau PISA yn 2009, 2012 a 2015 yn siomedig. Yn 2015, roedd Cymru yn is na gwledydd eraill y DU ar bob mesur. Dywedodd yr OECD na ellid egluro'r canlyniadau drwy lefelau uwch o anfantais: dim ond 6% o'r amrywiad mewn perfformiad yng Nghymru y gellid ei briodoli i statws economaidd-gymdeithasol. Yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, esboniwyd 11% o'r amrywiad fel hyn.

38 Dangosodd y canlyniadau yn 2018 welliant: am y tro cyntaf, nid oedd canlyniadau Cymru yn sylweddol is na chyfartaledd yr OECD. Parhaodd canlyniadau Cymru mewn mathemateg i ddangos gwelliant; gwellodd gwyddoniaeth ar 2015 a chafwyd y sgôr gyfartalog uchaf ar gyfer darllen ers 2006. Roedd perfformiad Cymru yn dal y tu ôl i wledydd eraill y DU ym mhob maes. Gohiriwyd profion PISA 2020, yr oedd yr OECD yn bwriadu adrodd arnynt yn 2021, oherwydd y pandemig. Bydd y darlun nesaf o berfformiad ar gael yn 2022. Canfu ymchwil diweddar iawn yn seiliedig ar astudiaeth carfan mileniwm y DU fod y rhan fwyaf o ganlyniadau gwybyddol yng Nghymru yn debyg iawn i Loegr heblaw am ddarllen, yn enwedig yn saith oed[27].


## Mesurau perfformiad eraill

### Canlyniadau TGAU a Safon Uwch

39 Wrth edrych ar berfformiad mewn TGAU, cynyddodd cyfran y disgyblion a gyflawnodd bum TGAU (A*-C) cyn disgyn yn ôl. Yn 2019, cyrhaeddodd 54% o ddisgyblion y lefel hon o'i gymharu â 51% yn 2012 (**Arddangosyn 6**).

27 Sibieta L, a Fullard J, Sefydliad Polisi Addysg, The evolution of cognitive skills during childhood across the UK, Gorffennaf 2021

**Arddangosyn 6: perfformiad TGAU, Cymru 2012 i 2019**





Nodiadau:

1 Mae data ar gyfer disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
2 Ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru y mesurau hyn ar gyfer 2020.
3 Cyhoeddwyd y ganran a gyflawnodd o leiaf 5 TGAU A* i A am y tro cyntaf ar gyfer 2017/18.

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19 (dros dro), – SFR Diwygiedig 93/2019(D), Hydref 2019

40 Mae cyfran y disgyblion sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch mewn ysgolion sy'n cyflawni gradd A*-G wedi cynyddu (**Arddangosyn 7**). Bu cynnydd hefyd yn y ganran sy'n cyflawni tair Safon Uwch ar A* neu A.

**Arddangosyn 7: perfformiad safon uwch yng Nghymru 2016 i 2019, ysgolion yn unig**




Nodiadau:

1 Mae'r data hyn ar gyfer disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

2 Roedd y canlyniadau ar gyfer 2020 wedi'u seilio ar raddau a aseswyd gan y ganolfan ac felly ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru y mesurau perfformiad ar gyfer 2020.

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2018/19 (dros dro), – SFR Diwygiedig 93/2019(D), Hydref 2019

41 Bu disgyblion a oedd yn sefyll arholiadau yn 2020 a 2021 yn gweithio o dan amgylchiadau digynsail gyda chymwysterau'n cael eu dyfarnu ar sail graddau a aseswyd gan y ganolfan. Yn 2021, roedd 30% o'r cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd i ddisgyblion 15 oed yn rhai A*-A, 3.5% yn fwy nag yn 2020 a 10.9% yn fwy nag yn 2019[28]. Cafwyd yr un patrwm ar gyfer Safon Uwch: yn 2021, roedd 48.3% o raddau Safon Uwch yn raddau A* neu A, 6.5 pwynt canran yn fwy nag yn 2020 a 21.3 pwynt canran yn fwy na 2019[29].


28 Cymwysterau Cymru, Crynodeb o'r canlyniadau dros dro ar gyfer cymwysterau TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 a chymwysterau galwedigaethol dethol yng Nghymru, Awst 2021

29 Cymwysterau Cymru, Crynodeb o'r canlyniadau dros dro ar gyfer Cymwysterau Safon Uwch, UG, Tystysgrif Her Sgiliau Uwch, a chymwysterau galwedigaethol lefel 3 dethol yng Nghymru, Awst 2021

## Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad

42 Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r nod o leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'r gweddill. Mae hyn yn cynnwys yn y blynyddoedd cynnar pan all plant o gefndiroedd difreintiedig fod y tu ôl i eraill erbyn eu bod yn dair oed[30]. Mae mesur perfformiad yn y maes hwn yn gymhleth. Mewn TGAU, cynyddodd y bwlch cyrhaeddiad yng nghanrannau TGAU ar raddau A*-G ac A*-C rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac eraill rhwng 2016 a 2019. Prin oedd y newid yn y bwlch cyrhaeddiad ar y graddau TGAU uchaf yn ystod y cyfnod hwnnw (**Arddangosyn 8**).

**Arddangosyn 8: gwahaniaeth pwynt canran nifer y cofrestriadau TGAU yn ôl ystod graddau yn ôl statws prydau ysgol am ddim (ddim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim – yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) 2016 i 2019**




Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2019/20, SFR 218/2020, Rhagfyr 2020

30 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig - Lansio dull gweithredu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, Hydref 2019

43 Mae bylchau cyrhaeddiad sylweddol hefyd yn bodoli ar gyfer dysgwyr eraill:

- **Ar gyfer merched a bechgyn** – Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn TGAU yn gyffredinol: ar raddau A*-C, cynyddodd y bwlch o 8.9% yn 2015/16 i 10.2% yn 2019. Ar gyfer y graddau uchaf arhosodd y bwlch bron yr un fath: 7.7% yn 2016 a 7.4% yn 2019. Yn 2020 cynyddodd y bwlch rhwng bechgyn a merched dros y flwyddyn flaenorol ar raddau A*-A ond gostyngodd ar raddau A*-C ac A*-G. Gwelir patrwm tebyg ar lefel UG a Safon Uwch.
- **Ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig** – roedd tuedd i'r graddau fod yn uwch pan nad oes gan ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Yn 2019, roedd 22% o'r cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd i ddisgyblion heb anghenion addysgol arbennig ar raddau A*-A o'i gymharu â 5.4% o'r cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, bwlch o 16.8% pwynt canran[31].

44 Yn 2020 a 2021, gwelwyd bylchau cyrhaeddiad yn cynyddu mewn graddau a aseswyd gan y ganolfan. Yn 2020, roedd 21.8% o'r cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd i ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn A* neu A o'i gymharu â 7.1% o'r cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn fwlch cyrhaeddiad o 14.7 pwynt canran o'i gymharu ag 11.5 pwynt canran yn 2019. Mae canlyniadau dros dro ar gyfer 2021 yn awgrymu bod y bwlch cyrhaeddiad wedi cynyddu eto. Ehangodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac eraill a rhwng bechgyn a merched hefyd yn 2020 a 2021[32].

31 Cymwysterau Cymru, Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb Haf 2020 TGAU, UG, a Safon Uwch, Hydref 2020, Tablau Data.

32 Cymwysterau Cymru, Crynodeb o'r canlyniadau dros dro ar gyfer cymwysterau TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 a chymwysterau galwedigaethol dethol yng Nghymru, ym mis Awst 2021.

# Ysgolion – galw a chapasiti

### Lleoedd ysgol a maint dosbarthiadau

45 Yn 2019/20, roedd 1,480 o ysgolion yng Nghymru o’i gymharu â 1,723 yn 2009/10. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i uno. Gostyngodd lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd o 21% yn 2010 i 12.6% yn 2018. Mae’r ffigur hwn yn agosach at darged Llywodraeth Cymru o 10% o leoedd gwag i ganiatáu am newidiadau yn y flwyddyn a rhywfaint o ddewis i rieni. Cynyddodd lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd o 16% i 19.7% dros yr un cyfnod, ond mae’r darlun hwn yn debygol o newid wrth i’r garfan bresennol o blant ysgol gynradd symud i’r ysgol uwchradd.

46 Yn rhannol, mae’r newidiadau mewn lleoedd gwag yn deillio o gynnydd yn y gyfradd geni rhwng 2010 a 2012, wrth i’r plant hynny bellach fynd trwy’r system. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae’r gyfradd geni yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, sy’n golygu ei bod yn debygol y bydd cynnydd mewn lleoedd gwag yn y blynyddoedd nesaf. Yn gyffredinol, mae’r darlun hwn yn tynnu sylw at sut y mae ansefydlogrwydd yr amcanestyniadau cyfradd geni yn ei gwneud yn anodd i gynghorau a Llywodraeth Cymru gynllunio lleoedd ysgol yn y tymor canolig a hir.

47 Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei nod o leihau maint dosbarthiadau babanod. Cefnogodd ysgolion drwy grant o £36 miliwn dros bedair blynedd ar gyfer staff addysgu a/neu lety. Cyhoeddwyd rhagor o gyllid ar gyfer staff addysgu yn y blynyddoedd cynharaf ar gyfer 2021/22 ym mis Mai 2021. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos, ym mis Ionawr 2020, mai 25.4 oedd maint cyfartalog dosbarthiadau babanod, yr un fath â 2019 a gostyngiad bach ar 2018 (25.6). Fodd bynnag, mae maint dosbarthiadau iau (Blynyddoedd 3 i 6) wedi cynyddu (o 25.9 yn 2018 i 26.3 yn 2020). Roedd 7.4% o ddisgyblion mewn dosbarthiadau babanod o dros 30 o ddisgyblion, i fyny o 7.2% (7,581) ym mis Ionawr 2019 ond yn llai nag 8.4% yn 2018[33].

33 Ystadegau Llywodraeth Cymru, Canlyniadau cyfrifiad ysgolion, ym mis Ionawr 2020: Tablau, Ebrill 2020

48 Mae adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn[34] yn nodi bod nifer y lleoliadau nad ydynt yn ysgolion ar gyfer plant o dan bump oed sy’n cynnig addysg ran-amser wedi gostwng. Ym mis Ionawr 2020, roedd tua[35] 546 o ddarparwyr addysg mewn lleoliadau nad ydynt yn ysgolion ar gyfer plant tair neu bedair oed. Mae’r nifer wedi bod yn gostwng ers 2010, pan oedd dros 700. Nid yw rhai cynghorau’n ariannu unrhyw leoliadau nad ydynt yn ysgolion ac mae’r cyllid sydd ar gael yn amrywio rhwng ardaloedd. Yn 2018, roedd pob un yn talu llai na’r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gynnig ar gyfer elfen gofal plant ei chynnig gofal plant ac addysg.[36] Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith i ddeall yn well sut y gellir cefnogi lleoliadau nas cynhelir i ddarparu darpariaeth y Cyfnod Sylfaen. Roedd yn cynnwys cyllid ychwanegol yn ei chyllideb ar gyfer 2021-22 i gysoni cyllid ar gyfer lleoedd addysg ar draws lleoliadau.

## Gweithlu


49 Mae nifer yr athrawon a gyflogir mewn ysgolion wedi cynyddu ychydig ers 2010. Mae nifer y staff cymorth a gyflogir wedi cynyddu’n fwy sylweddol (**Arddangosyn 9**).

34 Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-2020, Rhagfyr 2020

35 Mae nifer y lleoliadau nas cynhelir sydd wedi’u cofrestru gyda phartneriaethau lleol i ddarparu addysg yn amrywio, yn aml yn ôl p’un a yw plant tair oed neu hŷn yn mynychu’r lleoliad ac ar drefniadau i ariannu’r ddarpariaeth yn lleol.

36 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, Gorffennaf 2018

**Arddangosyn 9: nifer y staff a gyflogir mewn ysgolion yng Nghymru (Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI))**




Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Cyfrifiad Ysgolion

50 Mae ysgolion yn wynebu nifer o heriau yn y gweithlu, gan gynnwys:

- **Athrawon cyfrwng Cymraeg** – Mae prinder athrawon ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd a phynciau. Canfu ein hadroddiad yn 2020 fod diffyg athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.[37] Mae nifer y recriwtiaid i addysg gychwynnol athrawon ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is na'r targed yn gyson. Bydd y cwricwlwm newydd yn newid y dull o addysgu ac asesu'r Gymraeg a bydd yn cynyddu'r galw am athrawon Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ymhellach.
- **Staff ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer, Codi Safonau** – Fe wnaethom fynegi pryder ynglŷn â'r gallu i benodi staff ar gyfer y rhaglen ym mis Medi 2020[38]. Roedd penodi staff ychwanegol o ansawdd uchel ar fyr rybudd yn anodd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac ardaloedd o amddifadedd uchel[39]. Yn hytrach, mae ysgolion a cholegau wedi ymestyn oriau staff rhan-amser, wedi talu goramser i staff cyfredol, neu wedi cadw staff sydd ar fin ymddeol.
- **Athrawon newydd gymhwyso** – Llywodraeth Cymru sy'n pennu nifer y lleoedd hyfforddi athrawon sydd ar gael yn seiliedig ar ddisgwyliadau o ran y gweithlu gofynnol. Fodd bynnag, am y chweched flwyddyn yn olynol, roedd nifer yr athrawon newydd dan hyfforddiant ysgol uwchradd yn is na'r angen (54% yn is) yn 2019/20. Roedd nifer yr hyfforddeion ysgol gynradd newydd yn llai na'r angen am y bumed flwyddyn yn olynol (12% yn is yn 2019/20)[40].
- **Athrawon cyflenwi** – Yn 2013 a 2020, fe wnaethom adrodd ar Gyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon a gwnaethom rai argymhellion ynghylch rheoli absenoldeb a darparu staff cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella hyfforddiant athrawon cyflenwi a'u cyflog a'u hamodau. Fodd bynnag, nododd ein gwaith hefyd fod cynyddu cyflogau yn bwysau cost pellach i ysgolion ac mae'n tynnu sylw at y risg y bydd ysgolion yn arbed arian drwy gyflogi cynorthwywyr addysgu yn hytrach nag athrawon cymwysedig mewn rhai sefyllfaoedd.

37 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon – gwaith dilynol, Tachwedd 2020

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer craffu Cyfnod 1 ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Medi 2020

39 Estyn, Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) neu'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16, Mehefin 2021

40 Ystadegau ar gyfer Cymru, Addysg Gychwynnol i Athrawon Cymru, 2019/20 SFR 18/2021 18 Mai 2021

# Ysgolion – materion allweddol

51 Pan darodd y pandemig, roedd ysgolion a'r system addysg eisoes yn dangos arwyddion o straen. Roedd rhaglen ddiwygio fawr yn mynd rhagddi, roedd heriau sylweddol ar y gweithlu ac roedd cyllid ysgolion dan bwysau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o gyllid ysgolion. Mae'r pandemig wedi tarfu ar addysg cenhedlaeth o ddisgyblion; a'i effaith yn amrywio ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau ac yn arbennig o anodd i blant sy'n agored i niwed. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae ysgolion yn wynebu'r her o gefnogi lles disgyblion a gweithio o fewn cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill i leihau trosglwyddiad, sy'n effeithio ar eu gallu i gyflwyno rhai elfennau o'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

**Lliniaru effaith COVID ar ddisgyblion**

52 Bydd yr effaith ar ddisgyblion unigol wedi amrywio ond mae pob un wedi teimlo tarfu sylweddol. Mae tystiolaeth bryderus o ddysgu a gollwyd a bod y pandemig wedi cynyddu anghydraddoldeb – er enghraifft, ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo tua £370 miliwn hyd yn hyn i ysgolion a'r blynyddoedd cynnar adfer ar ôl y pandemig a pharatoi ar gyfer diwygiadau. Fodd bynnag, mae'r Sefydliad Polisi Addysg wedi amcangyfrif y gallai fod angen £600 miliwn i £900 miliwn dros dair blynedd i gefnogi adferiad addysg yng Nghymru.[41]

53 Mae'r ymateb i'r pandemig wedi dod â rhai newidiadau buddiol. Er enghraifft, mae Estyn[42] yn nodi bod cyfathrebu rhwng rhieni ac ysgolion wedi gwella. Mae sgiliau a dysgu digidol wedi cyflymu wrth i ysgolion a disgyblion orfod ymateb i heriau dysgu o bell[43].

54 Yn ogystal ag effaith y pandemig ar addysg, nododd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd bryder cynyddol ynglŷn ag effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yn ehangach.[44] Darparodd Llywodraeth Cymru £1.2 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ym mis Ebrill 2020. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £4 miliwn ychwanegol i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a lles mewn ysgolion yn 2021-22 yn ogystal â £5.4 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

41 Sefydliad Polisi Addysg, Papur Dadansoddi: Canfyddiadau Ymchwil Ragarweiniol ar Adferiad Addysg, Ebrill 2021

42 Estyn, Gwaith ymgysylltu – Diweddariad ar y sector cynradd Tymor yr Haf 2021, Gorffennaf 2021

43 Estyn, Gwaith ymgysylltu – Diweddariad ar y sector uwchradd Tymor yr Haf 2021, Gorffennaf 2021

44 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc: adroddiad terfynol, Mawrth 2021

## Cyflawni'r rhaglen ddiwygio

55 Mae ysgolion wedi cael eu herio dros y flwyddyn ddiwethaf gan addasu i ddysgu o bell, monitro disgyblion sy'n agored i niwed a chefnogi'r gwaith o ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb. Bydd angen cymorth ar ysgolion i gyflwyno'r diwygiadau hyn yn llwyddiannus. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Y Daith i 2022, map ffordd yn dangos yr hyn yr oedd angen i ysgolion ei wneud cyn dechrau'r Cwricwlwm i Gymru. Ym mis Gorffennaf 2021, adroddodd Estyn fod angen cyfnod o amser heb darfu ar ysgolion cynradd i fod yn barod i weithredu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Canfu fod y paratoadau mewn ysgolion uwchradd yn amrywio.

56 Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg newidiadau gyda'r nod o greu mwy o amser i ysgolion baratoi ac ymgysylltu â Cymwysterau Cymru ar ddulliau asesu a chymwysterau. Roedd y rhain yn cynnwys atal y gofyniad am asesiadau diwedd cyfnod mewn ysgolion cynradd unwaith eto. Cyhoeddodd hefyd na fydd y Cwricwlwm i Gymru yn orfodol i ysgolion uwchradd tan 2023.

57 Nid yw cost diwygio'r cwricwlwm – hyd yma ac yn y dyfodol – yn glir eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhaglen werthuso sy'n cynnwys casglu gwybodaeth am gostau – ond heb yr wybodaeth hon, ni allwn fod yn siŵr bod digon o adnoddau ar gael. Byddwn yn edrych ar gostau yn fanylach yn ein gwaith parhaus ar raglen diwygio'r cwricwlwm.

## Mynd i'r afael â heriau'r gweithlu

58 Rydym wedi cofnodi rhai o'r heriau gweithlu sy'n wynebu ysgolion, cynghorau a Llywodraeth Cymru. Mae rhai o'r rhain wedi bod yn bresennol ers amser maith. Mae nifer y recriwtiaid ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon wedi bod yn her ers sawl blwyddyn. Deallwn fod nifer yr ymgeiswyr wedi cynyddu ar gyfer 2021/22, ond nid yw'n glir a fydd hyn yn cael ei gynnal neu a yw'n ganlyniad i lai o gyfleoedd amgen i raddedigion yn ystod y pandemig.

59 Mae'r her o ddatblygu gweithlu digonol sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i ysgolion helpu i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a amlinellir yn ei strategaeth Gymraeg 2050. Bu prinder athrawon cyfrwng Cymraeg ers tro byd ac mae hyn yn ddifrifol ar gyfer pynciau penodol fel ffiseg a mathemateg. Mae prinder athrawon Cymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd hefyd, sy'n debygol o fod yn bwysicach yn y dyfodol oherwydd bod gan y Cwricwlwm i Gymru ddull newydd a mwy o bwyslais ar ddysgu ac asesu'r Gymraeg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru